

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
a Philip Blaker,
Prif Swyddog Gweithredol, Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn,
Casnewydd
NP10 8UH

18 Awst 2020

Annwyl Philip a David

Rwy'n ddiolchgar ichi am y cymorth a'r cyngor yr ydych chi a'ch swyddogion yn parhau i'w rhoi imi i sicrhau bod gennym ddull cadarn a theg ar waith i alluogi cynnydd ein dysgwyr yn y dyfodol.

Mae gennyf ffydd yn y dull gweithredu yr ydych wedi'i sefydlu yng Nghymru, gan weithio ochr yn ochr â CBAC. Ond yn sgil y datblygiadau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig (DU), rwy bellach o'r farn bod y cydbwysedd o ran tegwch yn seiliedig ar ddyfarnu Graddau Aseu Canolfannau i fyfyrwyr, er gwaethaf cryfderau ein system yng Nghymru.

Felly, rwy'n ysgrifennu atoch i ddiweddarau'r Cyfarwyddyd y rhoddais ichi ar 6 Ebrill o dan Adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i roi sylw i bolisi Gweinidogion Cymru ynghylch canslo arholiadau a phennu graddau yn sgil hynny. Ac mae hyn yn adlewyrchu'r dull gweithredu yr ydym wedi'i fabwysiadu i ddiweddarau'r polisi. Credwn fod angen inni wneud hynny fel y gallwn barhau i ymddiried yn ein system cymwysterau ac, ar yr un pryd, fod yn deg i'n myfyrwyr yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Yn gywir

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

CYFARWYDDYD O DAN ADRAN 53 O DDEDDF CYMWYSTERAU (CYMRU) 2015 WG20-42

O dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i unrhyw agweddau ar bolisi'r llywodraeth a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

Cafodd Cyfarwyddyd gan y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru, ei roi i Gymwysterau Cymru ar 6 Ebrill ynghylch polisi Llywodraeth Cymru y dylai'r cohort o ddysgwyr TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ar gyfer haf 2020 gael eu canlyniadau'r haf hwn yn dilyn canslo cyfres arholiadau'r haf.

Cafodd datganiad polisi gan y Gweinidog Addysg ei gyhoeddi heddiw ynghylch polisi Gweinidogion Cymru y dylai Graddau Asesu Canolfannau ar gyfer Safon Uwch, Safon UG, TGAU a Thystysgrif Her Sgiliau gael eu dyfarnu i ddysgwyr y canslwyd eu harholiadau yr haf hwn. Gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru drwy ddilyn y ddolen hon:

<https://llyw.cymru/datganiad-gan-kirsty-williams-y-gweinidog-addysg>

Gan hynny, mae'r Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru, yn cyfarwyddo Cymwysterau Cymru i roi sylw i'r materion canlynol (sy'n diweddarau'r Cyfarwyddyd a roddwyd ar 6 Ebrill ac fe'i newidir gan Atodiad ar 14 Awst, ac mae'r cyfarwyddydau blaenorol yn cael eu dirymu i'r graddau eu bod yn anghyson â'r Atodiad hwn):

- polisi Llywodraeth Cymru bod Graddau Asesu Canolfannau yn cael eu dyfarnu i ddysgwyr ar gyfer TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau, ac eithrio pan fo'r graddau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi neu eu cyfrifo yn uwch na'u Graddau Asesu o'r Canolfannau, neu yn achos Safon Uwch, fod eu gradd Safon UG yn uwch na'u Gradd Asesu o'r Canolfannau (gweler Atodiad 14 Awst). Pan fo'r canlyniadau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi yn is na Graddau Asesu Canolfannau, rhaid i Gymwysterau Cymru sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau i adlewyrchu Gradd Asesu Canolfannau, a rhaid i'r canlyniadau newydd gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo modd; a
- polisi Llywodraeth Cymru fod y broses apelio yn cael ei diweddarau i adlewyrchu dyfarnu Graddau Asesu Canolfannau.